

Tribiwnlys Adolygu  
Iechyd Meddwl Cymru

Mental Health Review  
Tribunal for Wales

# Canllaw Gwybodaeth ar gyfer Perthnasau Agosaf

Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru  
Llawr 2, Adeiladau'r Goron  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
Ffôn: 0300 025 5328  
Ffacs: 0300 025 7331  
E-bost: [mhrt@wales.gsi.gov.uk](mailto:mhrt@wales.gsi.gov.uk)

## Beth yw Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (TAIMC)?

Mae TAIMC yn gorff barnwrol annibynnol sy'n adolygu'r angen i unigolyn fod yn destun y Ddeddf Iechyd Meddwl. Gall cleifion, ac mewn rhai achosion, eu Perthynas Agosaf, wneud cais i'r Tribiwnlys i gael adolygu penderfyniad i gadw claf mewn ysbyty meddwl neu fod yn destun Gorchymyn (gweler ffurflen MHRTW2 o dan yr adran canllaw a ffurflenni ar ein gwefan). Mae dyletswydd hefyd ar yr Awdurdod sy'n gyfrifol am gadw cleifion o dan Adran o'r Ddeddf neu Orchymyn, a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, i wneud atgyfeiriad i'r Tribiwnlys mewn amgylchiadau penodol.

Mae awdurdod y Tribiwnlys wedi'i gyfyngu i ystyried a ddylai'r adran o'r ddeddf / y gorchymyn y mae eich perthynas yn destun iddo barhau mewn grym. Mewn rhai amgylchiadau, yn achos cleifion sy'n destun Adran 3 neu 37 y Ddeddf er enghraifft gall wneud argymhellion.

## Pwy yw'r Perthynas Agosaf

Mae 'Perthynas Agosaf' yn derm cyfreithiol a all olygu gŵr neu wraig, partner sifil neu aelod o deulu'r claf sy'n byw gyda, neu sy'n gofalu am y claf. Nid yw o reidwydd yr un fath â'r unigolyn sy'n perthyn agosaf at y claf. Mae gan y Perthynas Agosaf hawliau a phwerau penodol o dan y Ddeddf.

## Hawliau Perthynas Agosaf

Mae eich hawliau'n cynnwys:

- Yr hawl i ofyn am i'ch perthynas gael ei gadw mewn ysbyty neu ei wneud yn destun gwarcheidiaeth.
- Yr hawl i ofyn am weithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy i weld eich perthynas.
- Yr hawl i gael gwybod bod eich perthynas yn destun i'r Ddeddf.
- Yr hawl i gael gwybodaeth.
- Yr hawl i gael gwybod os yw eich perthynas am gael ei ryddhau.
- Yr hawl i ryddhau eich perthynas sy'n cael ei gadw o dan y Ddeddf / Gorchymyn.
- Yr hawl i wneud cais i'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl os yw rhyddhad eich perthynas wedi cael ei wahardd gan y RC.
- Yr hawl i wrthwynebu penderfyniad sy'n gwneud eich perthynas yn destun gorchymynion penodol o dan y Ddeddf.

## Beth yw rôl y Perthynas Agosaf?

Fel y Perthynas Agosaf gallwch chwarae ran bwysig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, sy'n rhoi'r hawl i chi i wneud ceisiadau penodol yn achos derbyn eich perthynas i ysbyty.

Os yw eich perthynas yn gwneud cais neu'n cael ei atgyfeirio i'r Tribiwnlys a'i fod yn cytuno y gallwn gysylltu â chi, cewch wybodaeth am amser a dyddiad gwrandawriad y Tribiwnlys a chewch wahoddiad i gymryd rhan yn ôl disgresiwn panel y Tribiwnlys. Nid oes yn rhaid i chi fynd i'r gwrandawriad os byddai'n well gennyh beidio.

Gallwch ysgrifennu at y Tribiwnlys cyn y gwrandawriad i fynegi eich barn am gaethiwed eich perthynas. Os ydych chi'n teimlo na ddylai rhan neu'r cyfan o'ch llythyr gael ei ddangos i'ch perthynas, dylech egluro'r rhesymau pam. Bydd panel y Tribiwnlys wedyn benderfynu a ddylai'r wybodaeth hon gael ei datgelu i'ch perthynas ai peidio.

Os byddwch yn penderfynu ysgrifennu at y Tribiwnlys neu beidio, mi allwch fod yn bresennol, os bydd y Tribiwnlys yn cytuno. Ar yr amod bod y Tribiwnlys yn cytuno mi allwch hefyd ddod â pherson arall gyda chi, ond yn y ddau achos rhaid i chi hysbysu'r Tribiwnlys eich bod yn dymuno bod yn bresennol drwy gwblhau'r ffurflen bresenoldeb briodol (MHRTW03).

Mae gennych hawl hefyd i gyfarwyddo rhyddhad eich perthynas os cafodd ei dderbyn ar gyfer asesiad neu driniaeth neu os yw'n destun CTO. Fodd bynnag, gall y RC, o fewn 72 awr, gyhoeddi hysbysiad yn gwahardd rhyddhau ac mewn achos o'r fath, os yw eich perthynas yn cael ei gadw o dan adran 3 neu CTO, mae gennych hawl i wneud cais i'r Tribiwnlys eich hun.

## **Pwy sydd 'ar y Tribiwnlys'?**

Mae tri aelod ar y Tribiwnlys. Yr aelod Cyfreithiol sy'n llywyddu yn y gwrandawriad, mae'r aelod Meddygol yn seiciatrydd, ac mae gan yr aelod Lleyg arbenigedd yn aml mewn materion iechyd meddwl, er enghraifft fel gweithiwr cymdeithasol neu nyrs seiciatrig cymunedol (CPN). Mae'r Tribiwnlys yn annibynnol ac nid oes gan yr un o'r aelodau gysylltiad â chaethiwed neu Orchymyn eich perthynas.

## **Beth maent yn ei wneud?**

Bydd y Tribiwnlys yn ystyried y seiliau cyfreithiol dros yr adran o'r Ddeddf neu'r gorchymyn y mae eich perthynas yn destun iddo ac os nad yw'n fodlon eu bod yn cael eu cyflawni bydd yn rhyddhau eich perthynas o'r adran o'r Ddeddf neu'r gorchymyn. Os nad yw'r Tribiwnlys yn rhyddhau claf sy'n cael ei gadw gall weithiau wneud argymhellion a all gynorthwyo i'w rhyddhau rywbryd yn y dyfodol.

Os yw'r Tribiwnlys yn ystyried cais gennych chi yn dilyn cyhoeddi tystysgrif gwahardd gan y RC bydd yn rhyddhau eich perthynas oni bai ei fod o'r farn y byddai'n ymddwyn mewn ffordd a fyddai'n beryglus iddo ef ei hun neu i eraill. .

## **Beth fydd yn digwydd yng ngwrandawriad y Tribiwnlys?**

Fel arfer bydd y gwrandawriad yn cael ei gynnal yn breifat ac fel arfer bydd eich perthynas yn bresennol, ynghyd â'r meddyg sy'n gyfrifol am ei ofal, gweithiwr cymdeithasol, nyrs os yw'ch perthynas yn cael ei drin mewn ysbyty, ac unrhyw gynrychiolwyr cyfreithiol.

Ar ddechrau'r gwrandawriad bydd cadeirydd y Tribiwnlys yn egluro sut y mae'r Tribiwnlys yn bwriadu cynnal y gwrandawriad. Mae'n arferol i'r panel ofyn cwestiynau i'r tîm gofal ac i'ch perthynas. Gall y panel hefyd ofyn am eich barn chi fel Perthynas Agosaf.

Mae'n anarferol i'r Perthynas Agosaf gael ei gynrychioli ac eithrio mewn amgylchiadau lle mai ef neu hi sydd wedi gwneud y cais gwreiddiol i'r Tribiwnlys.

## Beth fydd yn digwydd ar ôl gwrandawriad y Tribiwnlys?

Fel arfer bydd y Tribiwnlys yn cyhoeddi ei benderfyniad ar ddiwrnod y gwrandawriad. Os mai chi wnaeth y cais gwreiddiol, byddwch yn cael copi ysgrifenedig o benderfyniad y Tribiwnlys o swyddfa'r Tribiwnlys tua wythnos ar ôl y gwrandawriad.

Mewn rhai amgylchiadau efallai y bydd gennych hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad; bydd yr hawliau hyn yn cael eu hegluro'n ysgrifenedig ac yn cael eu hanfon atoch gyda phenderfyniad y Tribiwnlys.

Os nad oeddech chi wedi gwneud y cais ond eich bod yn bresennol yn y gwrandawriad, mae'n debyg y byddwch yn cael clywed y penderfyniad yn cael ei gyhoeddi ar y diwrnod.

Os ydych chi wedi cael eich gwahodd i fod yn bresennol ond nad ydych chi'n gallu mynd, byddwch yn cael eich hysbysu o'r canlyniad gan yr ysbyty.

## A allaf fi hawlio costau?

Os ydych chi'n bresennol yn y gwrandawriad fel y sawl sydd wedi gwneud y cais neu fel tyst gallwch ofyn i'r Tribiwnlys ad-dalu treuliau penodol. Cewch ragor o wybodaeth ar ein gwefan neu yn y llyfryn canllaw MHRTW 12 sydd hefyd ar gael o'r cyfeiriad uchod.

## Rhagor o wybodaeth

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch ar sut y mae perthynas agosaf yn cael ei benodi, eich rôl a'ch hawliau, gall TAIMC gyflenwi manylion am gyfreithwyr sy'n arbenigo mewn iechyd meddwl a'ch cyfeirio at wybodaeth ddefnyddiol a mudladau a all helpu. Cysylltwch â'r Tribiwnlys yn y cyfeiriad uchod neu ewch i'r dudalen adnoddau ar ein gwefan.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.